***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 56

# Rheoliadau Defnyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Gasgedi mewn Caeadau) (Cymru) 2008

**Amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy**

**8.**—(1) Mewn unrhyw achos cyfreithiol am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, yn ddarostyngedig i baragraff (4), bydd i'r sawl a gyhuddir brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol, ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r tramgwydd ei hun neu ei gyflawni gan berson sydd o dan ei reolaeth, yn amddiffyniad.

(2) Heb ragfarn yn erbyn natur gyffredinol paragraff (1), dylid cymryd bod person a gyhuddir o dramgwydd o dan reoliad 4(1)(a), ac na wnaeth —

(a) paratoi'r caead yr honnir i'r tramgwydd gael ei gyflawni mewn cysylltiad ag ef; na

(b) ei fewnforio i'r Deyrnas Unedig,

wedi profi'r amddiffyniad a ddarparwyd gan baragraff (1) os yw'n bodloni gofynion paragraff (3).

(3) Bydd person yn bodloni gofynion y paragraff hwn os yw'n profi —

(a) bod y tramgwydd wedi ei gyflawni o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithred gan berson arall nad oedd o dan ei reolaeth, neu o ganlyniad i ddibynnu ar wybodaeth a gyflenwyd gan y cyfryw berson;

(b) nad rhoi ar y farchnad o dan ei enw neu ei farc ef oedd y weithred o roi ar y farchnad yr honnwyd ei bod yn dramgwydd;

(c) y naill neu'r llall o'r canlynol —

(i) ei fod wedi gwneud ar y caead o dan sylw bob gwiriad o'r fath a oedd yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau, neu

(ii) ei bod yn rhesymol iddo yn yr holl amgylchiadau ddibynnu ar wiriadau a wnaed gan y person a gyflenwodd iddo'r caead o dan sylw; ac

(ch) nad oedd yn gwybod, pan gyflawnwyd y tramgwydd, y byddai ei weithred neu ei ddiffyg gweithred yn gyfystyr â thramgwydd o dan reoliad 4(1)(a) ac nad oedd ganddo reswm dros amau hynny.

(4) Os bydd honni bod y tramgwydd wedi ei gyflawni o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithred gan berson arall, neu os bydd dibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson arall, yn rhan o'r amddiffyniad sy'n cael ei ddarparu gan baragraff (1) mewn unrhyw achos, ni fydd hawl gan y sawl a gyhuddir, heb ganiatâd y llys, i ddibynnu ar yr amddiffyniad hwnnw oni bai—

(a) o leiaf saith niwrnod clir cyn y gwrandawiad; a

(b) pan fo'r sawl a gyhuddir wedi ymddangos gerbron y llys mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig o'r blaen, o fewn un mis i'r ymddangosiad cyntaf hwnnw gan y sawl a gyhuddir, ei fod wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r erlynydd yn rhoi'r cyfryw wybodaeth ag a oedd yn ei feddiant bryd hynny ac sy'n enwi'r person arall hwnnw neu'n helpu i'w enwi.